

Mewn Argyfwng

» Gwrthdrawiadau a Thorri i Lawr

Gwelwch a anafwyd dysgwyr ac, os cawsant, cysylltwch â'r Heddlu a/neu'r gwasanaethau brys.

Lle bo modd, dylai dysgwyr aros yn y cerbyd dan eich goruchwyliaeth nes daw cymorth. Heblaw os bydd tân neu bosibilrwydd hynny, dylai gyrwyr ddweud wrth y dysgwyr am aros yn y cerbyd.

Os oes tebygolrwydd tân, gwagiwch y bws yn dawel, i'r ochr fewnol os gallwch, a sicrhau bod dysgwyr yn cadw gyda'i gilydd ar bellter diogel o'r cerbyd.

Os oes oedolion cyfrifol gerllaw, gofynnwch iddynt alw am gymorth. Ni ddylech adael y cerbyd i gael cymorth os nad oes unrhyw ddewis arall, a dim ond ar ôl dweud wrth y dysgwyr am aros yn y cerbyd wedi'i wneud yn ddiogel. Caewch y drysau teithwyr wrth i chi ymadael.

Ar ôl galw am unrhyw wasanaethau brys a hysbysu eich rheolwr, ffoniwch yr ysgol a Chludiant Teithwyr (neu gofynnwch i'ch cyflogwr wneud hynny).

» Tywydd Garw

Os byddwch yn ystyried yn y bore bod amgylchiadau'n rhy wael i gychwyn, peidiwch â cheisio mynd ond cofiwch hysbysu'r Pennaeth dros y ffôn.

Cofiwch mai cyfrifoldeb y contractwyr yw gwneud popeth a allant i ddychwelyd dysgwyr adref.

Cysylltwch â'r Pennaeth os ydych yn pryderu bod cyflwr y ffyrdd yn gwaethygu ac y teimlwch y dylech gasglu eich dysgwyr yn gynnar. Fel arall, dilynwch gyngor Cludiant Teithwyr a'r Pennaeth cyn gwneud hynny.

Bydd angen i'r Pennaeth sicrhau bod oedolion cyfrifol gartref i dderbyn dysgwyr.

Bydd cau ysgolion yn cael eu hysbysebu bob amser ar wefannau pob cyngor.

» Cau Ffyrrdd

Bydd y Cyngor yn cynghori gweithredwyr ynghylch cau ffyrdd, ynghyd â newidiadau llwybr priodol.

Dylai gyrwyr sy'n dod ar draws ffyrdd wedi cau'n annisgwyl ffonio eu rheolwyr a fydd, yn eu tro, yn cysylltu â Chludiant Teithwyr am gyfarwyddyd. Dylai'r rheolwr hefyd ffonio'r ysgol fel bod yr ysgol yn gallu dweud wrth unrhyw rieni sy'n ffonio yno.

Os na all y gyrrwr gyrraedd ardal neu safle arbennig, mae bob amser yn ddoeth cadw'r plant yn y cerbyd. Bydd Cludiant Teithwyr yn trefnu porthwr addas i barhau'r daith.